**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 2IL MAI 2017 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W. Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson, S. Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C.J. Earley, Clerc y Dref

**431/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R. Foreman.

**432/16 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**433/16 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2017 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***

**434/16 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**(a) Cofnod 363/16(e) - Chwarel Plas Gwilym - Ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb ysgrifenedig manwl gan yr ymgynghorydd i'r pryderon a fynegwyd gan y Cyngor Tref ag eraill, yn cynnwys trigolion lleol. Fe nodwyd bydd cais cyflawn yn cael ei gyflwyno yn y man, a dyna pryd caiff y Cyngor y cyfle i wneud sylwadau pellach.

(**b) Cofnod 416/16(a) - Meinciau Picnic:**

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan ERF yn cadarnhau nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn barod i ganiatáu i blatiau dur ar gyfer barbeciw tafladwy cael eu hail osod ar y byrddau oherwydd y posibilrwydd o ddifrod gwres i'r pren a'r risg o losgi i ddefnyddwyr. Mynegodd yr Aelodau eu pryderon am y difrod allai ddigwydd i'r byrddau os bydd pobl yn parhau i ddefnyddio barbeciw tafladwy, fel y bu'n digwydd cyn i'r platiau cael eu gosod.

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor ei bod wedi derbyn anfonebau erbyn hyn ar gyfer Ionawr - Mawrth am waith i drwsio'r byrddau ac roedd wedi holi ERF am hyn. Roedd y nifer o oriau a hawliwyd, sef 21 am bob mainc picnic, yn llawer uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd a'r hyn a amcangyfrifwyd ar lafar.

***Penderfynwyd disgwyl am ganlyniad yr ymholiad am yr anfonebau, ac yn y cyfamser, argymell bod y Cyngor Tref yn gofyn i GBSC cymryd y cyfrifoldeb***

***am y byrddau a adnewyddwyd oherwydd y pryderon bydd penderfyniad ERF yn golygu na fedrem ddiogelu'r byrddau rhag y difrod a wneir gan farbeciw tafladwy.***

**(c) Cofnod 417/16(a) - Gwaharddiad Parcio Arfaethedig ar Gilfan Ffordd Abergele.**

Derbyniwyd a nodwyd y neges e-bost gan Reolwr Traffig CBS Conwy, yn cyflwyno mwy o wybodaeth am y rheswm dros gau, yn rhannol, y gilfan ger y datblygiad tai newydd.

**(ch) Cofnod 421/16(a) - Cais Cynllunio O/43870 - Plas Parciau:**

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan GBS Conwy, yn cadarnhau bod nodiadau'r cais cynllunio gwreiddiol yn egluro'r bwriad i beidio ei gyfyngu i gleifion y clefyd Alzheimer yn unig, ond i gyfyngu'r defnydd ehangach o ddosbarth C2 megis addysg breswyl, canolfan hyfforddi, ysbyty ayb. Fe nodwyd felly na fydd efallai unrhyw seiliau cynllunio i wrthod tystysgrif o gais cyfreithloned.

***Penderfynwyd ailadrodd y pryderon am y defnydd arfaethedig a gofyn a ellir cynnwys amod, os rhoddir caniatâd, i sicrhau na fydd trigolion yn cael y warant o gael eu hailgartrefu'n lleol unwaith daw eu triniaeth i ben.***

**(d) Cofnod 421/16(c) - 23 Ffordd Hesketh, Hen Golwyn**

Cyflwynodd y Clerc copi o ddogfennaeth yr apêl a sylwadau'r Clerc a gyflwynwyd i'r Arolygydd, yn cefnogi gwrthod y cais. Fe nodwyd bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref ar 14eg Mehefin am 10am ac fe all Aelodau (a'r cyhoedd) fod yn bresennol fel arsyllwyr.

**435/16 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBS Conwy:

**a. Rheoliadau Traffig Dros Dro**

i Promenâd Colwyn - Ffordd y Rotari (gwaith brys)
ii Ffordd Penrhyn, Mai 19 - 21 (Gŵyl y Pedwardegau)
iii Grove Park i Lwybrau Cyswllt Victor Road (gwaith brys)

**b Meinciau Cofio**

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth e-bost yn gofyn i un fainc gael ei symud o'r Promenâd yn Llandrillo yn Rhos er mwyn cael dwy fainc cofio newydd i gymryd ei le. Fe nodwyd ar y fainc mai rhodd oedd hon gan 'Grŵp Cymunedol Llandrillo yn Rhos'.

***Penderfynwyd ymateb trwy ddweud nad oes gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad, ond i'r Swyddog ceisio cysylltu â Grŵp Gwaith Amgylcheddol Llandrillo yn Rhos (trwy'r Cynghorydd Roger Parry) a Grŵp Cymunedol Llandrillo yn Rhos (trwy ei dudalen Wepfan) cyn ei symud.***

**c. Cyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad diweddariad byr ar lafar yn dweud na fu'n bosibl iddi fod yn bresennol (oherwydd gwyliau blynyddol) ond fe dderbyniwyd y cofnodion erbyn hyn. Adroddwyd rhan o'r Cofnodion oedd yn ymwneud a'r adolygiad o'r Prif Gynllun

**ch PSB Conwy a Sir Ddinbych**

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am y pedwar digwyddiad 'Dowch a'ch Syniadau' sydd ar ddod sy'n berthnasol a'r pedwar thema yng nghynllun llesiant yr ardal leol: amgylcheddol, cymdeithasol, economi a diwylliant a gwytnwch cymdeithasol. Fe anelir y rhain at bobl sy'n gweithio ar lefel gweithredol mewn unrhyw o'r meysydd hyn.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.***

**436/16 <u>Gohebiaeth Arall:</u>**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

**a.** Cofnodion Cyfarfod Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 12fed Ebrill 2017

**b.** Cofnodion Cyfarfod Grŵp Mynediad Conwy a gynhaliwyd ar 18fed Ebrill 2017

**c.** Chwarae Cymru - Gwanwyn 2017

**437/16 <u>Cynllunio</u>:**

**a.** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b.** ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC yn y cyfnod o 27.3.17 hyd at 23.4.17.***

**c.** ***Penderfynwyd derbyn yr hysbysiad bod ceisiadau O/43798 ac O/43799 (parthed gwaith tirlunio ym Mharc Eirias) wedi cael eu tynnu'n ôl.***

**438/16 <u>Trwyddedau:</u>**

Cyflwynodd y Clerc rhybudd am nifer o geisiadau am drwyddedau a restrwyd yn ddiweddar gan GBSC ar gyfer ardal Bae Colwyn.

***Penderfynwyd derbyn a nodi manylion y ceisiadau am drwyddedau.***

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.30 pm

…… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 2ND MAY 2017, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr N Bastow, Chairman
Cllrs W Bagnall, Mrs G Baker, Mrs L Griffiths, Mrs M Jones, J Pearson, S Williams

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk

**431/16 Apologies for Absence**:

Apologies for absence were received from Cllr R Foreman.

**432/16 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**433/16 Minutes**:

***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 4th April 2017.***

**434/16 Matters Arising from Previous Minutes:**

**a. Min 363/16(e) – Plas Gwilym Pre-Application Consultation**:

The Clerk submitted a detailed written response from the consultant to the concerns raised by the Town Council and others, including local residents. It was noted that a full application would be submitted in due course, at which point the Council will have a further opportunity to comment.

**b. Min. 416/16(a) – Picnic Benches:**

The Clerk submitted an email from ERF confirming that CCBC were not willing to give permission for the metal plates for disposable barbeques to be re-fitted to the tables, due to potential heat damage to the wood and the risk of burns to users. Members expressed concern about potential damage to the tables if people persist in using disposable barbecues, as they had done before the plates were fitted.

The Clerk advised the Committee that she had now received invoices for January-March for the table refurbishment work and had queried this with ERF, as the hours claimed for amounted to 21 per picnic bench, which was much higher than anticipated and than had been verbally estimated.

***Resolved to await the outcome of the invoice query and, in the meantime, to recommend to the Town Council that it asks CCBC to take***

***over responsibility for the refurbished tables, due to concerns that the decision taken by ERF means we are no longer able to protect them from damage by the use of disposable barbecues.***

**c. Min 417/6(a) – Proposed Parking Prohibition at Abergele Road Layby:**

An email from the Traffic Manager, Conwy CBC, supplying more information about the partial closure of the layby in the vicinity of the new housing development, was received and noted.

**d. Min 421/16(a) – Plan App 0/43780 – Plas Parciau:**

The Clerk submitted an email from Conwy CBC, confirming that the notes from the original planning permission clarified the intention not to restrict it to just care for Alzheimer's patients, but to restrict wider C2 use such as residential education, training centre, hospital etc. It was therefore noted that there may be no planning grounds on which to refuse the certificate of lawfulness application.

***Resolved to reiterate concerns about the proposed use and query if a condition could be imposed, if permission is granted, to ensure residents are not guaranteed to be re-housed locally once their treatment period is over.***

**e. Min 421/16(c) – 23, Hesketh Road, Old Colwyn**:

The Clerk submitted a copy of the appeal documentation and the Clerk's comments submitted to the Inspector in support of a refusal. It was noted that the hearing will be held in the Town Hall at 10am on 14th June and members (and the public) are able to attend as observers.

**435/16 <u>Conwy CBC</u>:**

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

**a. Temporary Traffic regulations**

i. Colwyn Promenade – Rotary Way (emergency works)
ii. Penrhyn Road, 19-21 May (Forties Festival)
iii. Grover Park to Victor Road Link paths (emergency works)

**b. Memorial benches**

The Clerk submitted email correspondence requesting to remove one bench from the Promenade in Rhos on Sea, which was marked as having been donated by the 'Rhos on Sea Community Group', so that it could be replaced with two new memorial benches.

***Resolved to respond that the Town Council has no objections, but request that the Officer attempts to contact Rhos on Sea Environmental***

***Action Group (via Cllr Roger Parry) and Rhos on Sea Community Group (via its Facebook page) prior to its removal.***

**c. Bay Life Officer Group Meeting**

The Clerk gave a brief verbal update, advising members that she had not been able to attend (due to annual leave), but that the minutes of the meeting had now been received. A section of the minutes relating to the Masterplan review was read out.

**d. Conwy & Denbighshire PSB**

The Clerk submitted information about four upcoming 'Bring your Idea' events related to four themes in the local area wellbeing plan: environmental, social, economic & culture and community resilience. These are aimed at people working at an operational level in any of these areas.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**436/16 <u>Other Correspondence</u>:**

It was noted that the following items of correspondence are available on request from the Clerk:

**a.** Minutes of the OCERA Meeting held on 12th April 2017.
**b.** Minutes of the Conwy Access Group held on 18th April 2017.
**c.** Play for Wales – Spring 2017

**437/16 <u>Planning:</u>**

**a.** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
***Resolved to submit observations on these applications, as outlined in Schedule 'A' attached.***

**b.** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 27/3/17 to 23/4/17.***

**c.** ***Resolved to receive notice that planning applications 0/43798 and 0/43799 (re: landscaping works in Eiras Park)have been withdrawn.***

**438/16 <u>Licensing:</u>**

The Clerk submitted notice of several licensing applications listed by CCBC recently for the Bay of Colwyn area.

***Resolved to receive and note details of the licensing applications.***

The meeting closed at 7.30 p.m.
…….. Chairman